


# AROLWG BLYNYDDOL

2016-2017



PRIFYSGOL  
BANGOR  
UNIVERSITY

# CYNNWYS



## 3 RHAGAIR GAN YR IS-GANGHELLOR

## 4-9 UCHAFBWYNTIAU 16/17

## 10-11 YMCHWIL

Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i fabanod yng Nghymru  
Defaid 'Trydan' yn helpu ymchwilwyr i gadw preiddiau mewn cyflwr da  
Twristiaid o Ewrop sy'n ymweld â Chymru yn cael golwg newydd ar y gorffennol

## 12-13 DYSGU AC ADDYSGU

Safon aur i Brifysgol Bangor  
Cyfleusterau addysgu gwych  
Defnyddio dulliau 'gemeiddio' wrth astudio dadansoddi ymddygiad

## 14-15 RHYNGWLADOLI

Gala Un Byd  
Dathlu Ystafelloedd Dosbarth Confucius  
Croesawu myfyrwyr y *Commonwealth Shared Scholarship Partnership*

## 16-17 CYFRWNG CYMRAEG

Gwobrwyo gwasanaethau i ofal iechyd dwyieithog  
Dathlu llwyddiant ar Ddydd Gŵyl Dewi  
Byddar – a balch!

## 18-20 CYMUNED

Pontio'n rhoi'r gymuned yn ei chalon  
Catrin yn disgleirio ar lwyfan y byd  
Myfyrwyr nyrsio hael yn rhannu hwyl y Nadolig

## LLYWODRAETHU

Y Cyngor yw corff llywodraethol y Prifysgol, a chyfarfu bum gwaith yn 2016/17 dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AM tan Ebrill 2017. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn chwilio am gadeirydd newydd. Ysgrifennydd y Prifysgol yw Dr Kevin Mundy. Caiff y Cyngor ei gynorthwyo gan nifer o is-bwyllgorau, yn cynnwys y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, a gadeirir gan y Trysorydd, Mr David Williams, a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, a gadeirir gan Dr Griff Jones, gyda'r ddau wedi cyfarfod pum gwaith. Dyma bwyllgorau eraill y Cyngor a gyfarfu yn ystod y flwyddyn sef y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu, Pwyllgor Moeseg, Pwyllgor Dwyieithrwydd, Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Iechyd a Diogelwch.

Mae rhagor o wybodaeth am drefn llywodraethu'r Prifysgol yn [www.bangor.ac.uk/about/management.php.cy](http://www.bangor.ac.uk/about/management.php.cy)  
Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata, Bangor, Gwynedd LL57 2DG

01248 383298    ywasg@bangor.ac.uk    www.bangor.ac.uk

# RHAGAIR GAN YR IS-GANGHELLOR

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn am 2016-17 yn edrych yn ôl ar yr hyn a fu'n flwyddyn lwyddiannus a heriol i Brifysgol Bangor.

Ymysg y prif uchafbwyntiau oedd derbyn canlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Dysgu (TEF) a'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr.

Derbyniodd Bangor y safon Aur yn Fframwaith Rhagoriaeth Dysgu newydd llywodraeth y Deyrnas Unedig, gan ddod yr unig brifysgol yng Nghymru i gyrraedd y safon hon.

Mae'r fframwaith yn asesu prifysgolion yn erbyn ystod o feini prawf ac mae'n rhan o gynlluniau llywodraeth y Deyrnas Unedig i godi safonau mewn addysg uwch. Mae hefyd yn rhoi mwy o wybodaeth i fyfyrwyr fel y gallant wneud y penderfyniadau mwyaf gwybodus wrth benderfynu pa brifysgol i fynd iddi.

Daeth y Panel TEF i'r casgliad fod Prifysgol Bangor yn darparu addysgu, dysgu a chanlyniadau rhagorol yn gyson i'w myfyrwyr. Mae hwn yn ganlyniad gwych i ni fel sefydliad, ac mae'n gadarnhad cyhoeddus o'r holl bethau rhagorol sy'n digwydd yn y Brifysgol.

Yr un pryd mae ein myfyrwyr ein hunain unwaith eto wedi dangos eu cefnogaeth lwyd i'r Brifysgol yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS) blynyddol. Cafodd y Brifysgol ei gosod yn 8fed ymysg prifysgolion anarbenigol y Deyrnas Unedig ac yn ail ymysg prifysgolion Cymru.

Mae canlyniadau'r NSS yn rhoi'r adborth mwyaf cynhwysfawr ar brofiad myfyrwyr ym mhob sefydliad, ac yn manylu at lefel ysgol, cwrs a rhaglen, a hefyd yn defnyddio gwybodaeth ehangach am feysydd megis addysgu ac asesu ac adborth.

Cafodd tri ar ddeg o gyrsiau gradd gyfraddau boddhad o 100% gan y myfyrwyr, a chafodd naw o feysydd pwnc cyffredinol hefyd foddhad o 100%, gan eu rhoi ar frig eu tabl pwnc yn y Deyrnas Unedig.

Eleni cafwyd llwyddiannau sylweddol o ran datblygu rhaglenni ac isadeiledd ymchwil y Brifysgol. Rydym wedi agor y sefydliad ymchwil niwclear cyntaf yng Nghymru (y Nuclear Futures Institute). Fe'i sefydlwyd gyda chyllid

o £6.5 miliwn gan raglen Sêr Cymru Llywodraeth Cymru a'r Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd, gan lwyddo i ddenu ymchwilwyr o fri rhyngwladol i'r Brifysgol.

Cawsom ein dewis gan lywodraeth y Deyrnas Unedig i arwain Archwiliad Gwyddoniaeth ac Arloesi (y North West Nuclear Arc Consortium), ac i gymryd rhan mewn dau archwiliad arall a fydd yn cynorthwyo'r llywodraeth i asesu sut mae buddsoddi mewn gwyddoniaeth ac arloesi yn rhoi hwb i gynhyrchiad rhanbarthol.

Parhawyd i fuddsoddi o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd (£6.8m) yn SEACAMS, project sy'n rhoi arbenigedd ymchwil i'r sector fôr fasnachol.

Mae ymchwilwyr o Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor wedi derbyn cyllid sylweddol gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i hyrwyddo ymchwil mewn datblygiadau newydd i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia; treialon ymyriadau pwysig; ac ymchwil sylfaenol i gost-effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, meddyginiaethau ac ymyriadau iechyd cyhoeddus. Bydd hyn i gyd yn cefnogi ein swyddogaeth ymchwil allweddol i wella iechyd pobl Cymru a thu hwnt.

Mae effeithiau economaidd a chymdeithasol yn parhau i fod wrth wraidd ein hymchwil a chydabuwyd hynny gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol gydag estyniad o £250K i'n Project Cyfrif Cyflymu Effaith sydd wedi derbyn £677K.

Mewn meysydd eraill rydym wedi gweld cynnydd mawr gyda Pharc Gwyddoniaeth y Brifysgol, M-SParc, sydd wedi'i sefydlu ar Ynys Môn gerllaw ac sydd i agor yn 2018. Gyda chymorth cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd, bydd M-SParc yn darparu lle i fusnesau o bob maint, o fusnesau newydd i gwmnïau corfforaethol mawr. Bydd popeth sydd ei angen ar fusnes, yn cynnwys cyfleusterau rhagorol a gwasanaethau cefnogi busnes pwrpasol, lle hyblyg i swyddfeydd a labordai, yn cael eu darparu ar y safle.

Ym Mangor ei hun, mae Pontio, ein canolfan newydd i'r Celfyddydau ac Arloesi, yn cael ei thraed dani fel lleoliad poblogaidd i fyfyrwyr a'r gymuned leol

sy'n defnyddio cyfleusterau rhagorol yr adeilad. Mae'r rhain yn cynnwys ystafelloedd darlithio, manau arloesi, manau dysgu cymdeithasol, caffis a bwytai, yn ogystal â'r sinema, y theatr a'r theatr stiwdio.

Cafwyd nifer o sialensiau o bwys hefyd yn ystod y flwyddyn ac, wrth i ni edrych at 2018 a thu hwnt, mae'n anochel y bydd angen gwneud mwy o benderfyniadau anodd wrth i ni wynebu ansicrwydd cynyddol ynghylch cyllido'r sector Addysg Uwch, yn ogystal â'r ansicrwydd cyffredinol sydd wedi'i greu gan benderfyniadau gwleidyddol ehangach, ac yn arbennig y rhai'n ymwneud â Brexit.

I roi sylw i'r materion hyn fe sefydlais Fwrdd Cynaliadwyedd Ariannol i ddelio â'r sialensiau ariannol neilltuol sy'n ein hwynebu ni yma ym Mangor, ac mae hyn wedi arwain eisoes at bennu arbedion sylweddol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi bod yn hawdd ac rwy'n ddiolchgar i bawb am eu dealltwriaeth yn ystod y cyfnod hwn o ad-drefnu.

Unwaith eto eleni, hoffwn ddiolch i aelodau'r Cyngor ac i gydweithwyr ar draws y Brifysgol am eu cefnogaeth a'u cyfraniad yn ystod y flwyddyn. Rydym yn ymfalchio'n fawr yng nghanlyniadau rhagorol y Fframwaith Rhagoriaeth Dysgu a'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr, a byddwn yn parhau i ddarparu'r addysg orau posib i'n myfyrwyr yn ystod y flwyddyn i ddod.

**Yr Athro John G Hughes  
Llywydd ac Is-ganghellor**



# UCHAFBWYNTIAU

1

1 Matthew Barzun, Llysgennad yr Unol Daleithiau i'r Deyrnas Unedig (2013-17) yng nghanolfan Pontio.

Trafododd Matthew Barzun, **Llysgennad yr Unol Daleithiau i'r Deyrnas Unedig** rhwng 2013-17, y berthynas rhwng yr Unol Daleithiau a'r DU ac atebodd gwestiynau gan y gynulleidfa, a oedd yn cynnwys myfyrwyr a disgyblion o ysgolion uwchradd lleol mewn achlysur arbennig yng nghanolfan Pontio'r Brifysgol.

Mae Prifysgol Bangor wedi llofnodi memorandwm o ddealltwriaeth gyda **Hitachi-GE Nuclear Energy, Ltd.** (Hitachi-GE) ac **Imperial College** sy'n cryfhau ei ymrwymiad i gefnogi arbenigedd yng Nghymru a Phrydain. Bydd Hitachi-GE yn rhoi cyngor diwydiannol i'r 'Canolbwynt a Rhwydwaith Adweithyddion Dŵr Berwedig' a sefydlwyd yn ddiweddar gan Imperial a Bangor, gan ddefnyddio ei brofiad helaeth ym maes adweithyddion dŵr berwedig i roi arbenigedd a chefnogaeth dechnegol. Bydd hyn yn cynnwys lleoli ymchwilydd rhan-amser ym Mangor, ac adeiladu ar y rhaglen bresennol o interniaethau yn Japan i fyfyrwyr o Brydain.

Agorodd Julie James AC, **Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Sgiliau a Gwyddoniaeth**, Suprex, menter ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor a Phytovation Cyf. o Gaernarfon. Mae Suprex, cwmni technoleg arloesol, yn sefydliad ymchwil contract a dyma'r unig sefydliad masnachol yn y DU sy'n gallu datblygu cymhwysiaidau proses ar gyfer carbon deuocsid.

Cyhoeddodd yr **Ysgol Cemeig** y bydd yn cyfrannu at CALIN, rhwydwaith gwyddor bywyd sydd newydd ei lansio. Amcan y rhaglen gydweithredol, Celtic Advanced Life Science Innovation Network (CALIN), yw cysylltu busnesau bach a chanolig gyda sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac Iwerddon sy'n arweinwyr rhyngwladol. Gan ganolbwyntio ar feddygaeth fanwl (diagnosteg, dyfeisiau a therapiwtig), meddygaeth aildyfu, a biogydnawsedd a gwerthuso diogelwch, bydd CALIN yn gweithio'n agos gyda busnesau i gefnogi uwch ddatblygiad cynnyrch gwyddor bywyd trwy ymchwil a datblygu cydweithredol.

Derbyniodd Dr Kami Koldewyn, niwrowyddonydd o'r **Ysgol Seicoleg**, grant ERC gwerth €1.5M i ymchwilio i'r niwrowyddoniaeth wybyddol y tu ôl i ddatblygiad yr "ymennydd cymdeithasol" mewn project o'r enw "Becoming Social: Social Interaction Perception and the Social Brain Across Typical and Atypical Development". Bydd y grant yn caniatáu i Dr Koldewyn gyflymu ei hymchwil i ddatblygiad a sail ymenyddol canfyddiad cymdeithasol cymhleth a dysgu cymdeithasol.



2

2 O'r chwith: Lizzie Basterfield, Rebecca Colley-Jones, Deirdre McIntyre a Dr Einir Young yn derbyn y wobwr Cynaliadwyedd ac Adnoddau gan y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff

Enillodd y Brifysgol wobwr am ei hymgyrch cynaliadwyedd #CaruNeuaddau gan y Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff yn eu Gwobrau Cynaliadwyedd ac Adnoddau. Creodd yr ymgyrch #CaruNeuaddau, a drefnwyd gan y **Tim Bywyd Preswyl** gydag arweiniad arbenigol gan dîm y Lab Cynaliadwyedd, arbedion mawr gwerth dros £100,000 mewn blwyddyn i'r brifysgol a'i myfyrwyr.

Dr Frances Garrad-Cole o'r **Ysgol Seicoleg** yw'r aelod diweddaraf o staff y brifysgol i dderbyn Cymrodoriaeth Dysgu Genedlaethol gan yr Academi Addysg Uwch. Cymrodoriaeth Dysgu Genedlaethol yw'r wobwr uchaf ei bri am ragoriaeth mewn addysgu ym maes Addysg Uwch.

Enillodd tîm **Gwasanaethau Eiddo a Champws** Prifysgol Bangor deitl Prif Contractor y Flwyddyn yn y National CDM Awards. Rhoddwyd y teitl am waith gosod a ffitio a wnaed gan y Brifysgol yng Nghanolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio. Rhoddwyd tîm y brifysgol ar y rhestr fer hefyd am wobwr Cleient y Flwyddyn. Mae'r gwobrau hyn yn datlu, gwobrwyo a rhannu arfer dda ragorol yn sector Rheoli Risg Iechyd a Diogelwch mewn Cynllunio ac Adeiladu.

Enillodd Prifysgol Bangor wobwr **Prifysgol y Flwyddyn** am ei gwaith gyda'r sector busnes ac enillodd ddwy wobwr arall yn y *Business Insider Awards* yng Nghaerdydd. Enillodd Bangor wobrau

am y Broses Newydd orau, am ei chydweithrediad â Sain Cyf. a'r Wobwr Bartneriaeth, am ei rôl flaenllaw yn rhaglen KESS II.

Cafodd polisiau cyflogaeth rhagorol Prifysgol Bangor eu cydnabod am bedair blynedd arall gydag adolygiad llwyddiannus o **Wobwr Rhagoriaeth Adnoddau Dynol** y Comisiwn Ewropeaidd y Brifysgol. Mae'r polisi hwn yn galluogi'r Brifysgol i ddenu rhai o'r ymchwilwyr cenedlaethol a rhyngwladol gorau ac mae'n dangos ymrwymiad y brifysgol i bolisiau cyflogaeth rhagorol i'w staff ymchwil.

Lansiodd yr **Ysgol Llenyddiaeth Saesneg** y Ganolfan Astudiaethau Arthuraidd, a fydd yn adeiladu ar yr hanes hir o ragoriaeth mewn ymchwil, dysgu ac ymwneud yn y maes arbenigedd hwn ers sefydlu'r Brifysgol ym 1884.

Enillodd ymrwymiad Prifysgol Bangor i gynaliadwyedd safle uchel i'r Brifysgol unwaith eto mewn tabl cynghrair rhyngwladol o sefydliadau sy'n garedig â'r amgylchedd. Yn yr **UI Green Metric** cyfredol, tabl cynghrair o brifysgolion gwyrddaf y byd, cododd Prifysgol Bangor ddeuddeg safle i safle 16, sy'n gosod y Brifysgol ymhlith y 4% uchaf o brifysgolion gwyrddaf y byd.

3 Dr Frances Garrad-Cole



3



3

3 Jess Mead Silvester (chwith) gyda Meistr Frethynwr William Charnley a Philip Hollyman (dde).

4 Elen Hughes, enillydd Coron Eisteddfod yr Urdd.



4

Cafodd Aelwyd Neuadd John Morris-Jones lawer o lwyddiannau ar brif lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd gan gynnwys y gystadleuaeth i gorau cymysg gyda dros 40 o gantorion. Enillodd Elen Hughes, sydd wedi cwblhau TAR yn yr **Ysgol Addysg** ac a raddiodd o **Ysgol y Gymraeg** yn 2016, Goron yr Eisteddfod. Daeth Lora Lewis yn ail ac Osian Wyn Owen yn drydydd, mae'r ddau yn fyfyrwyr yn Ysgol y Gymraeg.

Enillodd Dr Prysor Williams, o **Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth**, Wobr Goffa Eilir Hedd Morgan yng nghynulliad blynyddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cyflwynir y wobr hon bob blwyddyn i gydnabod cyfraniad rhagorol at ymchwil a dysgu ym maes gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyhoeddodd brifysgolion Cymru raglen fuddsoddi uwchgyfrifiadura newydd gwerth £15M wedi ei gyllido'n rhannol gan y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd trwy Lywodraeth Cymru. Bydd y cyfleusterau'n cefnogi projectau ynni llanw ac eigionegol yn yr **Ysgol Gwyddorau Eigion**, gyda chyfluoedd i ryngweithio â phroject SEACAMS 2 a ariennir gan yr ERDF.

Dyfarwyd medallau Cwmni'r Brethynwyr i ddau fyfyrwr o'r **Ysgol Gwyddorau Eigion**. Mae Cwmni'r Brethynwyr yn un o gwmnïau lifrai hanesyddol dinas Llundain, a bellach yn sefydliad dyngarol. Pob blwyddyn mae Cwmni'r Brethynwyr, yn garedig iawn, yn rhoi dwy fedal i'w dyfarnu i fyfyrwyr ôl-radd nodedig. Dyfarwyd medal arian Cwmni'r Brethynwyr i Philip Hollyman sy'n agosáu at gwblhau ei PhD mewn Bioleg y Môr a dyfarwyd medal efydd i Jess Mead Silvester sydd ym mlwyddyn olaf ei hastudiaeth PhD

Roedd **Archifau a Chasgliadau Arbennig** y Brifysgol ymysg 11 o ymgeiswyr newydd i dderbyn Achrediad Archif yr Archifau Cenedlaethol, gan ddod yn un o'r 62 archifau sydd wedi eu hachredu yn y DU.

Dyfarwyd Cymrodoriaeth Marie Skłodowska-Curie, sy'n gymrodoriaeth fawr ei bri, i Dr Alexander Sedlmaier o'r **Ysgol Hanes ac Archaeoleg**. Mae'r cymrodoriaethau hyn yn hynod gystadleuol a'u bwriad yw meithrin ymchwil rhyngddisgyblaethol, hyfforddiant academiaidd arloesol a chydweithio rhyngwladol.

Prifysgol Bangor yw'r sefydliad cyntaf yn y Deyrnas Unedig i gyflawni Lefel 5 fersiwn newydd 2016 o **Safon y Ddraig Werdd i Reolaeth Amgylcheddol**.



5 Yr Athro Dermot Cahill, Pennaeth Ysgol y Gyfraith, Bangor (chwith) a Dr Oana Andreea-Macovei o Université Toulouse-Capitole yn derbyn Gwobr Robertson-Horsington gan Guy Canivet, Llywydd Anrhydeddus Cyntaf y Cour de Cassation (dde).

Mae'r Université Toulouse-Capitole a Phrifysgol Bangor wedi derbyn **Gwobr Robertson-Horsington 2017** gan y Franco-British Lawyers Society am eu rhaglen gradd ddwbl: y Licence/Meistr 1 mewn Cyfraith Ryngwladol/LLB Cyfraith Lloegr a Chyfraith Ffrainc. Mae'r cwrs arloesol, rhyngwladol hwn, sy'n arwain at radd ddwbl yn y gyfraith, yn rhoi cyfle i fyfyrwyr dreulio dwy flynedd yn astudio'r gyfraith yn y ddwy wlad, gan arwain at dderbyn gradd LLB Brydeinig a gradd Meistr I Ffrengig ar ôl pedair blynedd.

Enwyd Prifysgol Bangor fel y **brifysgol orau yn y DU am Glybiau a Chymdeithasau Undeb y Myfyrwyr**, a Bangor yw'r drydedd brifysgol orau yn y DU yn ôl y *What Uni Student Choice Awards 2017*, gyda'r enwebiadau yn seiliedig ar adolygiadau ardderchog a barn myfyrwyr y Brifysgol. Yn ogystal ag ennill y wobwr 'efydd' am brifysgol y flwyddyn, roedd y Brifysgol hefyd yn drydydd yn y DU yn y categori cyrsiau a darlithwyr a "rhoi yn ôl" ac fe'i gosodwyd yn y 10 uchaf ym mhob un o'r deg categori y cawsant eu henwebu ar eu cyfer.

Enillodd Emily Roberts, Gweinyddydd Project M-SParc, sef **Parc Gwyddoniaeth Menai** sy'n eiddo i'r Brifysgol, wobwr 'Chwarae Teg Womenspire' yng nghategori Menywod mewn Economi Wledig, sy'n dathlu llwyddiant menywod sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd gwledig.

Mae myfyrwyr Prifysgol Bangor wedi dangos eu cefnogaeth i'r Brifysgol unwaith eto yn yr **Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr**, ac wedi gosod y Brifysgol yn wythfed ymysg prifysgolion anarbenigol y DU ac yn ail ymysg prifysgolion Cymru.

Enwyd yr Athro Angharad Price o **Ysgol y Gymraeg** yn Dramodydd Gorau yn yr Iaith Gymraeg yng Ngwobrau Theatr Cymru 2017. Enillodd y wobwr am ei drama, *Nansi*, a lwyfanwyd yn 2015 a 2016 gan Theatr Genedlaethol Cymru.

Dyfarwyd un o ddwy Wobr Werdd i BREAD4PLA, project gwyddoniaeth a thechnoleg werdd yr oedd ymchwil Prifysgol Bangor yn chwarae rhan sylweddol ynddo, fel un o'r Projectau Amgylchedd LIFE gorau yn ystod y 25 mlynedd diwethaf. Datblygodd ymchwilwyr o AIMPLAS, Sefydliad Technolegol Plastigau, Sbaen; y **Ganolfan Biogyfansoddion ac Ysgol Cemeg** Prifysgol Bangor; ATB, Sefydliad Peirianeg Amaethyddol yr Almaen a CETECE, y Ganolfan Technoleg Grawnfwydydd, Sbaen ddeunydd pecynnu bioddiraddadwy newydd i fara a chacennau o'r gwastraff a gynhyrchir gan brosesau'r diwydiannau.



Dr Raj Jones

Cyflwynwyd cymrodoriaethau er anrhydedd i nifer o bobl yn seremonïau graddio'r Brifysgol, sef:

**Yr Arglwydd Mervyn Davies, CBE,** Cadeirydd Cyngor Prifysgol Bangor, 2008-2015;

**Yr Athro Julian Evans, OBE,** cyn-fyfyriwr Bangor a'r cyntaf i dderbyn gradd DSc y Brifysgol mewn Coedwigaeth;

**Ifor ap Glyn,** Bardd Cenedlaethol Cymru a chyn Fardd Plant Cymru;

**Yr Athro Constantin Grammenos, CBE,** arbenigwr blaenllaw mewn cyllid a môrgludo rhyngwladol a astudiodd am ei MSc mewn Economeg Ariannol ym Mangor.

**Nicholas Jackson, OBE,** Prif Weithredwr Cymdeithas Sŵolegol Genedlaethol Cymru, Sŵ Mynydd Cymru ym Mae Colwyn ac yn meddu ar dros 40 mlynedd o brofiad ym maes sŵoleg;

**Dr Raj Jones,** ffisegydd gronynnau adnabyddus sydd wedi darlithio a chyhoeddi yn helaeth ar hanes ac athroniaeth gwyddoniaeth;

**Kailesh Karavadra,** a raddiodd gyda BSc ac MSc mewn Peirianeg Electronig. Erbyn hyn, mae'n Bartner Rheoli Swyddfa i Ernst & Young yn Silicon Valley;

**Gwion Lewis,** un o fargyfreithwyr mwyaf disglair ei genhedlaeth a golygydd adran 'Cymru' y "Planning Encyclopaedia";


**Yr Athro Gareth Ffowc Roberts,** cyn bennaeth y Coleg Normal a chyn Ddirprwy Is-ganghellor Prifysgol Bangor yn ogystal ag Athro Emeritws Prifysgol Bangor;

**Dr Cen Williams,** arweiniodd Canolfan Bedwyr y Brifysgol ers ei sefydlu ym 1996, datblygodd 'Cymraeg Clir', sy'n cyfateb i'r 'Crystal Mark' a ddyfarnwyd gan y "Plain English Campaign", a thrwy ei secondiad yn 2000-02, sefydlodd y corff a ddatblygodd i fod yn Goleg Cymraeg Cenedlaethol;


**Llion Williams,** actor amlwg yng Nghymru gyda phrofiad helaeth ym maes theatr a theledu;

**Chris Coleman,** rheolwr tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru ac **Osian Roberts,** rheolwr cynorthwyol, a arweiniodd Cymru i rownd cyn-derfynol Euro 2016.







Yr Arglwydd Mervyn Davies CBE




Yr Athro Julian Evans OBE




Ifor ap Glyn




Yr Athro Constantin Grammenos CBE



Nicholas Jackson OBE




Chris Coleman



Kailash Karavadra



Gwion Lewis




Yr Athro Gareth Ffowc Roberts



Dr Cen Williams



Llïon Williams



Osian Roberts



O'r chwith: Pip Jones, Dr Andy Smith, Pennaeth project MULTILAND a myfyrwraig MULTILAND Bid Webb gydag un o'r defaid electronig

# YMCHWIL

## RHOI'R DECHRAU GORAU MEWN BYWYD I FABANOD YNG NGHYMRU

Mae un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn byw mewn tldi. Gallai babanod a enir yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru ddisgwyl byw 19 yn llai o flynyddoedd mewn iechyd da na'r rhai a enir yn ardaloedd lleiaf difreintiedig Cymru. Mae Cymru eisoes yn gwario miliynau o bunnoedd bob blwyddyn i ddelio â chanlyniadau dechrau gwael mewn bywyd i lawer o fabanod a enir heddiw.


Cyhoeddodd yr Athro Rhiannon Tudor Edwards ynghyd â'i chydweithwyr Lucy Bryning a Huw Lloyd-Williams yn y Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (CHEME) [adroddiad](#) a gefnogir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar arbedion posib i economi Cymru o fuddsoddi yn ychydig flynyddoedd cyntaf bywyd. Er enghraifft, gallai pob £1 sy'n cael ei wario ar wasanaethau atal cenhedlu ddychwelyd rhwng £11 a £14 o arbedion i'r GIG yng Nghymru. Mae darparu fitaminau hanfodol i bob mam feichiog yn ystod misoedd cyntaf ei beichiogrwydd yn debygol iawn o fod yn gost-effeithiol. Amcangyfrifir bod y gost ychwanegol i wasanaethau mamolaeth y GIG yng Nghymru pan enir babanod pwysau isel a hynny'n cael ei briodoli i ysmegu a ffactorau risg eraill y gellid eu newid yn £2.15M y flwyddyn.

Mae'r adroddiad yn amcangyfrif y gallai codi'r gyfran o fenywod sy'n bwydo ar y fron yn unig ar ôl 4 mis (ar hyn o bryd mae'n 9% yng Nghymru) i'r gyfran a welir adeg y geni (57% yng Nghymru) arbed £1.5 miliwn bob blwyddyn i'r GIG yng Nghymru ar drin afiechydon cyffredin mewn plant bach. Ar gorn yr adroddiad hwn, gwahoddwyd yr Athro Edwards i'r Senedd i weithredu fel ymgynghorydd arbenigol i Bwyllgor Iechyd, Gofal

Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel rhan o'u gwaith craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer yr holl wariant ar iechyd a gofal cymdeithasol yn 2017-2018.

Mae CHEME yn rhan o Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd y Brifysgol ac yn cyfrannu at Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor sy'n dwyn ynghyd ymchwil iechyd ar draws y Brifysgol.

Symud y gromlin tuag at ataliaeth a buddsoddiad yn y Blynyddoedd Cynnar



Ffynhonnell: Gwariant cyhoeddus gyfredol wedi ei selio ar ffigurau gan y Swyddfa gyda Chyfrifoldeb am Gyllideb (2015).

## DEFAID 'TRYDAN' YN HELPŪ YMCHWILWYR I GADW PREIDDIAU MEWN CYFLWR ARDDERCHOG


Mae ymchwilwyr yn Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth wedi bod yn defnyddio defaid 'trydan' i ddarganfod sut mae defaid go iawn yn ymateb i dywydd. Gosodwyd system wresogi arbennig sy'n rhedeg ar fatri yn y modelau hyn, sy'n debyg i ddefaid go iawn, ac mae'r system yn efelychu'r gwres a gynhyrchir gan anifail byw.

Symudwyd yr e-defaid o gwmpas i brofi gwahanol amodau tywydd garw fel rhan o astudiaeth i weld sut i wella lles a chynhyrchiant preiddiau.

Eglurodd Pip Jones, myfyriwr PhD: "Mae defaid yn defnyddio tipyn go lew o ynni dim ond i gadw'n gynnes; ac maen nhw'n colli llawer o wres pan fydd yn oer, yn enwedig pan fydd y gwynt yn chwipio.

"Drwy fesur y gwahaniaeth rhwng y tymheredd mewnol ac amgylcheddol, galem gyfrifo faint o ynni mae'r ddafad yn ei golli dim ond wrth geisio delio â'r tywydd. Dros dri mis y gaeaf, os yw'r tymheredd allanol yn 6C sy'n ddiagon oer, ar 100 o ddefaid byddai angen 189kg ychwanegol (deunydd sych) o silwair, dim ond i gynhyrchu'r ynni sydd ei angen arnynt i gadw'n gynnes, ynni nad yw felly ar gael iddynt i dyfu."

Nod yr ymchwil yn y pen draw yw cynhyrchu pecyn ymarferol i ffermwyr i ddangos iddynt y lleoedd gorau i blannu er mwyn creu cysgod a lloches effeithiol. Mae'r astudiaeth yn rhan o MULTILAND, sef partneriaeth ymchwil sy'n dod o hyd i ffyrdd o gynyddu proffidoldeb ac effeithlonrwydd ffermydd drwy amaethyddiaeth gynaliadwy, ac ar yr un pryd yn gwella gwytnwch tirwedd y fferm. Mae ymchwil Pip i'r posibilrwydd o systemau cysgod coed i arbed egni a bywyd da byw mewn tywydd gwael, yn cael ei ariannu trwy'r ysgoloriaeth KESS, mewn partneriaeth â Choed Cadw.



Dyfrliw o Bont Rhiwaedog ym mhentref bach Rhos y Gwaliau ger Y Bala, a baentwyd gan Mary Ann Malkin, 1846.

Hawlfraint y Goron RCAHWM 2017

## TWRISTIAID O EWROP SY'N YMWELD Â CHYMRU YN CAEL GOLWG NEWYDD AR Y GORFFENNOL

Bydd twristiaid sy'n ymweld â Chymru yn gallu darllen adroddiadau hanesyddol am ymweliadau â'r wlad drwy'r oesoedd drwy gyfrwng adnodd digidol newydd a gaiff ei gwblhau y flwyddyn nesaf. Bydd y project 'Teithwyr Ewropeaidd i Gymru' yn rhannu rhywfaint o'r adroddiadau taith hanesyddol gyda thwristiaid modern sy'n dod i Gymru.

Ar ôl cwblhau'r gwaith a gaiff ei arwain gan Brifysgol Bangor gyda Phrifysgol Abertawe a Phrifysgol Cymru, Canolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd, ac mewn cydweithrediad â'r Comisiwn Brenhinol ar Henebion Hynafol a Hanesyddol Cymru a Croeso Cymru, bydd ymwelwyr yn gallu dilyn yn ôl troed teithwyr hanesyddol drwy ddilyn 'teithlenni' modern a awgrymir, a

darllen eu hadroddiadau, wedi eu hategu gan luniau hanesyddol gan y Comisiwn Brenhinol a chasgliadau hanesyddol eraill.

Esboniodd Arweinydd y Project, yr Athro Carol Tully, o'r Ysgol Ieithoedd Modern a Diwyllianau:

"Daethpwyd o hyd i dros 400 o adroddiadau nad oedd neb wedi eu hastudio o'r blaen, o'r cyfnod rhwng 1750 a 2010, a oedd yn cynnig golwg ar sut y mae eraill wedi gweld Cymru. Mae ehangder y pynciau a drafodwyd yn dangos bod diddordeb yng Nghymru ers amser maith. Nid twristiaid yn yr ystyr fodern oedd yr holl ymwelwyr, roedd rhai yn ffoaduriaid neu ar fusnes, ond maent i gyd yn rhoi cipolwg ar Gymru

o safbwynt ymwelwyr o wledydd eraill yn Ewrop."

Mae twristiaeth o Brydain ac Ewrop yn cyfrannu £5.1B y flwyddyn i economi Cymru, a bydd hwn yn adnodd gwerthfawr ar gyfer Croeso Cymru wrth iddo hyrwyddo tirwedd, hanes a diwylliant Cymru.

Gan fod y rhan fwyaf o bobl bellach yn ymchwilio ar-lein i'w cyrchfan teithio arfaethedig, bydd y wefan ryngweithiol newydd hon yn cynnwys nifer o adnoddau digidol a fydd yn ategu'r straeon a ddarganfuwyd. Bydd ar gael trwy wefan Croeso Cymru a bydd yn darparu teithlenni thematig gan ddefnyddio'r testunau hanesyddol.

# DYSGU AC ADDYSGU

FfRhA Aur

## SAFON AUR I BRIFYSGOL BANGOR

Yn Fframwaith Rhagoriaeth Dysgu newydd llywodraeth y Deyrnas Unedig, dyfarnwyd y safon Aur i Brifysgol Bangor - yr unig brifysgol yng Nghymru i gyrraedd y safon hon.

Mae'r fframwaith yn asesu prifysgolion yn erbyn ystod o feini prawf ac mae'n rhan o gynlluniau llywodraeth y Deyrnas Unedig i godi safonau mewn addysg uwch. Mae hefyd yn rhoi mwy o wybodaeth i fyfyrwyr fel y gallant wneud y penderfyniadau mwyaf gwybodus wrth benderfynu pa brifysgol i fynd iddi.

Daeth y Panel TEF i'r casgliad fod Prifysgol Bangor yn "darparu addysgu, dysgu a deilliannau rhagorol yn gyson i'w myfyrwyr" a'i bod "o'r ansawdd uchaf a geir yn y Deyrnas Unedig."

Meysydd a gafodd ganmoliaeth neilltuol oedd dull y Brifysgol o ymdrin â dysgu dwyieithog Cymraeg/Saesneg; ennyn cyfranogiad myfyrwyr; dulliau addysgu ac asesu; adnoddau dysgu gwirioneddol a rhithwir; cefnogaeth bersonol; a hyrwyddo cyflogadwyedd myfyrwyr.

Meddai'r Athro John G Hughes, Is-ganghellor: "Mae Bangor wedi ymroi'n gadarn dros lawer o ddegawdau i roi profiad o'r ansawdd uchaf i'w myfyrwyr. Nid yn unig yr ydym yn cysylltu ymchwil ag addysgu, ond rydym hefyd yn rhoi gofal bugeiliol personol i'n myfyrwyr, a rhoi amrywiaeth ac arbrofi wrth wraidd ein haddysgu a'n dysgu."

"Rydym yn credu'n gryf bod myfyrwyr yn haeddu dod i gysylltiad â thrylwyredd a sialensiau deallusol datrys problemau o fewn eu disgyblaethau a thrwy hynny, gael eu hymestyn yn addysgol."

Nododd yr adolygiad bod myfyrwyr o bob cefndir yn cael canlyniadau nodedig yn gyson, a bod dal gafaer ar fyfyrwyr, symud ymlaen i swyddi safon uchel neu astudio pellach, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg, i gyd yn uwch na'r meincred. Mae'r Brifysgol hefyd wedi cael lefelau cyson uchel o foddhad myfyrwyr gydag addysgu, asesu ac adborth, a chefnogaeth academaidd, yn mynd y tu hwnt i feincnod y darparwr yn sylweddol.



**Uwchlaw** Dr Sharp (chwith) gyda'i thim ymchwil a rhai o'r actorion a ddaeth â'r modiwl yn fyw.

## CYFLEUSTERAU ADDYSGU GWYCH

Buddsoddodd Prifysgol Bangor £3M i wella cyfleusterau addysgu mewn dwy o'i hysgolion academaidd, gan greu amgylchedd a fydd yn galluogi i fyfyrwyr ffynnu a chyflawni eu potensial.

Arweiniodd y project £2M i adnewyddu'r Ysgol Cerddoriaeth at greu gyfleusterau heb eu hail ar gyfer addysgu, ymchwil a pherfformio, ac ar gyfer nifer fawr o gymdeithasau Undeb y Myfyrwyr sy'n ymarfer yn wythnosol yn Neuadd Mathias.

Ailwampiodd yr holl ystafelloedd addysgu, perfformio ac ymchwil, cafwyd swyddfeydd newydd i staff a chyntedd newydd agored a llachar, lifft, a mynediad heb stepiau drwy'r holl adeilad, gan ei wneud yn hollol hygyrch i bawb. Ceir manau astudio cymdeithasol i'r holl fyfyrwyr, ynghyd â chartref i archifau'r ysgol o gerddoriaeth draddodiadol Cymru a Phop Cymru, a lle arbennig gyda chyfleusterau rheoli'r hinsawdd i gadw casgliad unigryw Crossley-Holland o offerynnau Mesoamericanaid



Dr Aamer Sandoo yn arddangos Uwchsein Cardiofasgwlaidd i'r Athro Nicky Callow yn ystod lansiad Canolfan PAWB.

hynafol. Mae'r project wedi adfer rhai o nodweddion gorau'r adeilad a adeiladwyd yn 1897, gan gynnwys llawr derw gwreiddiol yn neuadd Mathias, a nifer o lefydd tân Fictoraidd.

Buddsoddwyd £1M mewn cyfleuster newydd gyda'r offer diweddaraf, sef Canolfan PAWB, yn yr Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, lechyd ac Ymarfer.

Bydd dau labordy ffisioleg newydd yn ogystal â labordy dysgu mawr newydd, yn ymestyn a chyfnerthu adnoddau dysgu ac ymchwil presennol yr Ysgol hon,

sydd wedi ennill bri rhyngwladol. Mae'r cyfleusterau newydd hyn yn ymdrin â'r amrywiaeth o fuddion iechyd a geir drwy ymarfer a gweithgarwch corfforol a hefyd yn ymchwilio i berfformiad, chwaraeon ac amgylcheddau eithafol.

Mae'r lle newydd, hynod hyblyg hwn, yn adnodd ychwanegol pwysig i fyfyrwyr ac ymchwilwyr yr Ysgol a bydd yn sicrhau bod yr Ysgol yn parhau i gynnig amgylchedd rhagorol ar gyfer ymchwil ffisiolegol a datblygiad myfyrwyr.



Dde Drysau ystafell ddosbarth yn cael eu gwarchod gan y 'milisia' a 'staff meddygol' yn ystod y modiwl gemeiddio.

## DEFNYDDIO DULLIAU 'GEMEIDDIO' WRTH ASTUDIO DADANSODDI YMDDYGIAD

Mae darlithydd yn yr Ysgol Seicoleg wedi dyfeisio ffordd arloesol o ddysgu i helpu ei myfyrwyr i ddeall eu modiwl Dadansoddi Ymddygiad yn well.

Mae 'gemeiddio' yn ddull o gynllunio gweithgareddau i fod yn debyg i gêm ac fe'u defnyddir naill ai i wneud tasgau diflas yn hwyl neu, yn fwy penodol, i hybu perfformiadau gorau posibl.

Cafodd myfyrwyr a fu'n astudio fersiwn Dr Rebecca Sharp o'r modiwl, sy'n cynnwys elfen helaeth o 'chwarae gemau', eu trwytho mewn senario lle roedd Gogledd Cymru wedi cael ei tharo gan haint firol. Gosodwyd nifer o dasgau iddynt i ddatrys y sefyllfa gyda gwahanol 'wobrwyon' yn cael eu rhoi am lwyddo.

Taniwyd diddordeb y myfyrwyr gan e-bost rhagarweiniol a oedd yn cynnwys holl elfennau e-bost milwrol, a thrawsnewidiwyd eu darlithoedd i senarios lle roedd pobl yn cael eu 'llusgo allan' gan y milisia oherwydd eu bod wedi cael eu 'heintio'.

Eglurodd Dr Sharp: "Mae'r gwobrau, er yn fach ynddynt eu hunain, yn helpu myfyrwyr i deimlo bod ganddynt reolaeth dros eu dysgu. Fe wnaeth

y myfyrwyr ddysgu'r un deunydd yn union â myfyrwyr y llynedd, ond bu cymryd rhan yn y 'gêm' a gwneud rhai dewisiadau, megis cael dewis testun y ddarlith olaf, dewis testun aseiniad a chael golwg ar un pwnc arholiad, eu helpu i deimlo eu bod yn fwy o ran o'r broses. Roedd presenoldeb mewn darlithoedd yn uchel iawn ac roedd y myfyrwyr yn 'ailchwarae'r' tasgau ar-lein drosodd a throsodd nes eu bod yn ennill y nifer mwyaf o bwyntiau am ateb yr holl gwestiynau'n gywir. Fe wnaeth myfyrwyr a gwblhaodd yr 'ymgyrchoedd' ar-lein hyn i stopio ymlediad y firws berfformio'n well yn yr arholiad. Roedd myfyrwyr yn meistrolï'r pynciau cymhleth drwy gydol y tymor."



# RHYNGWLADOLI

## GALA UN BYD

Cafodd dros 400 o fyfyrwyr, staff ac aelodau o'r gymuned flas ar amryw o draddodiadau diwylliannol y byd yn nathliad blynyddol Prifysgol Bangor o amrywiaeth a thalent.

Mae Swyddfa Cefnogi Myfyrwyr Rhyngwladol y Brifysgol wedi bod yn trefnu'r Gala Un Byd ers degawd, ac mae bellach yn un o brif ddigwyddiadau integreiddio myfyrwyr ym Mangor. Mae'r rhaglen wedi tyfu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac erbyn hyn yn cynnwys perfformiadau gan aelodau o'r gymuned leol yn ogystal â myfyrwyr a staff y Brifysgol.

Cafwyd ugain o berfformiadau o bedwar ban byd, gan fyfyrwyr unigol a chlybiau a chymdeithasau myfyrwyr yn ogystal â grwpiau lleol, yn amrywio o ganeuon o Tonga i ddrymio o Ghana, canu gwerin Cymraeg a chreffft ymladd Japaneaidd.

Dyweddodd yr Athro John G Hughes, yr Is-ganghellor:

"Mae'r Gala Un Byd wedi'i sefydlu fel uchafbwynt yng nghalendr cymdeithasol y Brifysgol a dangosodd digwyddiad eleni unwaith eto ddoniau ein myfyrwyr rhyngwladol, a'r balchder sydd ganddynt yn eu gwahanol ddiwylliannau cenedlaethol. Amlygodd yr amrywiaeth sydd gennym yma ym Mhrifysgol Bangor

a pha mor bwysig yw hi i ni rannu a hyrwyddo ei gwahanol ddiwylliannau, o fewn y Brifysgol a chyda'r gymuned leol."

Cododd y digwyddiad dros £400 a gaiff ei gyfrannu at Sefydliad Wamumbi ar gyfer Plant Amddifad, elusen fach a sefydlwyd gan Genevieve Lamond, aelod o staff y Brifysgol. Mae'r sefydliad yn gweithredu yn Kenya ac yn darparu gwasanaethau i blant amddifad a'u gwarcheidwaid.



Llun: WIRC/  
Ibrahim Kawasmi

## DATHLU YSTAFELLOEDD DOSBARTH CONFUCIUS

Mae Sefydliad Confucius Prifysgol Bangor wedi lansio pum Ystafell Ddosbarth Confucius newydd, a fydd o fudd i ysgolion cynradd ac uwchradd yng ngogledd Cymru.

Menter gan Hanban, asiantaeth ddiwylliannol Tsieina, yw Ystafelloedd Dosbarth Confucius ac maent wedi eu lleoli mewn ysgolion a cholegau o gwmpas y byd. Eu bwriad yw bod yn ganolfannau lleol i ysgogi a chefnogi addysgu a dysgu arloesol ym maes iaith a diwylliant Tsieina ar draws cymunedau.

Dyweddodd Dr David Joyner, Cyfarwyddwr Sefydliad Confucius: "Rydym yn falch iawn o fod wedi sicrhau cyllid i bump o'r 60 ystafell ddosbarth Confucius ledled y

byd. Mae hon yn wobwr bwysig iawn i ni, yn enwedig gan mai dyma ein Hystafelloedd Dosbarth Confucius cyntaf, ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r ysgolion dan sylw wrth iddynt ddechrau ar y gwaith o ddatblygu eu canolfannau dysgu Tseineaidd eu hunain."

Dyweddodd Ken Skates AC, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Seilwaith, a oedd yn bresennol yn seremoni lansio'r Ystafelloedd Dosbarth:

"Mae Sefydliadau Confucius yn cynnig cyfle pwysig i bobl, cymunedau, busnesau a sefydliadau yng ngogledd Cymru ddysgu mwy am Tsieina fodern a chlasurol. Mae'r Ystafelloedd Dosbarth

newydd yn rhoi cyfle gwerthfawr i ni barhau i adeiladu ar ein cysylltiadau diwylliannol ac economaidd hir dymor â Tsieina a byddant yn ffurfio rhan bwysig o'n gwaith yn cynyddu ein cysylltiadau masnach."

Ers agor, mae Sefydliad Confucius Bangor wedi mynd o nerth i nerth, ac mae bellach yn dysgu Mandarin mewn pedair gwaith yn rhagor o ysgolion ac yn datblygu cynulleidfa gref ar draws y gymuned. Yn 2016 yn unig, daeth mwy nag 8,000 o bobl i ddigwyddiadau a gweithdai Sefydliad Confucius ar draws y rhanbarth, gan gynnwys o leiaf 600 o fyfyrwyr sy'n dysgu Mandarin yn rheolaidd mewn ysgolion, colegau ac yn y Brifysgol.

# CROESAWU MYFYRWYR Y COMMONWEALTH SHARED SCHOLARSHIP PARTNERSHIP CYNTAF

Myfyrwyr cyntaf y cynllun Commonwealth Shared Scholarship yn derbyn eu tystysgrifau gan yr Is-ganghellor, yr Athro John G Hughes.



Croesawodd Bangor ei charfan gyntaf o 5 myfyrwr Meistr o Uganda ym mis Medi 2016 drwy gyfrwng cynllun y *Commonwealth Shared Scholarship Partnership*. Aeth Prifysgol Bangor i bartneriaeth ag Ymddiriedolaeth Windle, corff anlywodraethol sy'n gweithio yn Nwyrain a Chanolbarth Affrica, a Chomisiwn y Gymanwlad. Mae'r ysgoloriaeth yn targedu myfyrwyr sy'n byw yn Uganda neu Kenya sydd naill ai'n ffoaduriaid neu yr effeithiwyd arnynt mewn rhyw ffordd arall gan wrthdaro.

Mae'r cynllun yn rhoi'r cyfle i'r myfyrwyr difreintiedig hyn astudio am radd meistr mewn pwnc sy'n ymwneud ag anghenion datblygu'r rhanbarth.

"Mae ein partneriaeth â Bangor yn rhoi cyfle gwych i bobl ifanc a fydd yn cynnig sgiliau arwain a sgiliau proffesiynol i gymdeithasau Affricanaidd sy'n dygymod ag effaith ddinistriol cyfnodau maith o ryfel a gwrthdaro." meddai Anbara Khalidi, Swyddog Rhaglen yn Ymddiriedolaeth Windle.

Mae carfan eleni yn astudio lechyd Cyhoeddus a Hyrwyddo lechyd, Coedamaeth, Cyfraith Drosedd Ryngwladol a Chyfraith Hawliau Dynol.

Dywedodd Dr Jaci Huws o'r Ysgol Gwyddorau Gofal lechyd: "Dangosodd y myfyrwyr gymhelliant eithriadol o uchel i ddysgu a chyfrannu'n rhagweithiol i

weithgareddau academiaidd yn yr Ysgol ac ar draws y Brifysgol. Gwnaethant hefyd gyfrannu at wybodaeth a dealltwriaeth eu cyd-fyfyrwyr o faterion o bwys rhyngwladol. Mae hyn wedi galluogi meithrin cymuned o unigolion sydd yn rhannu gweledigaeth o ddatblygu dulliau a fydd yn cynnal a gwella iechyd y cyhoedd."

Bydd y cynllun yn parhau yn 2017 gyda myfyrwyr o Kenya, Uganda, Gweriniaeth Ddemocrataidd y Congo a Rwanda yn astudio cyrsiau mewn lechyd Cyhoeddus a Gwyddorau Amgylcheddol.



Digwyddiad lansio Ystafelloedd Dosbarth Confucius yng nghwmni Ken Skates AC, cynrychiolwyr o Lysgenhadaeth Tsieina a disgyblion o Ysgol Friars ym Mangor ac Ysgol Uwchradd Caergybi, Ysgol Ein Harglwyddes ym Mangor, Ysgol Esgob Morgan yn Llanelwy ac Ysgol Hiraddug yn Nyserserth.

## GWOBROWYO GWASANAETHAU I OFAL IECHYD DWYIEITHOG

Mae cleifion bob amser yn cael eu cynghori y dylid cymryd meddyginiaethau fel y rhagnodir gan feddygon a fferyllwyr ac y dylid dilyn yn fanwl y cyfarwyddiadau ar y botel neu'r pecyn.

Un ffordd o sicrhau bod y cyngor yma yn cael ei ddilyn yw rhoi'r cyfarwyddiadau mewn 'iaith glir' y gellir ei deall yn rhwydd. I lawer o bobl yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf, mae cael y cyfarwyddiadau hyn mewn 'iaith glir' yn golygu eu cael yn Gymraeg. Gall nifer o bobl, yn cynnwys yr henoed, ddeall cyfarwyddiadau'n well yn yr iaith sydd fwyaf cyfarwydd iddynt. Datblygwyd project ar y cyd rhwng yr Uned Technolegau Iaith yng Nghanolfan Bedwyr (Delyth Prys) a'r Ganolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau (yr Athro Dyfrig Hughes), ynghyd â fferyllwyr yn Ysbyty Gwynedd i roi cyfarwyddiadau rhybuddio ar feddyginiaethau ar bresgripsiwn yn y Gymraeg am y tro cyntaf.

Mae'r ddarpariaeth arloesol hon, a gefnogwyd gan Brif Swyddog Fferyllol Cymru a Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru, yn sicrhau bod labeli rhybuddio dwyieithog ar



Staff Fferyllfa Ysbyty Gwynedd yn cyfeirio at Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain am gyngor ar labeli rhybuddio dwyieithog.

feddyginiaethau ar bresgripsiwn ar gael i gleifion. Cymerwyd y cam cyntaf gan y tîm trwy gyfieithu a safoni 30 o gyfarwyddiadau rhybuddio a roddir i gleifion sy'n cymryd meddyginiaethau ar bresgripsiwn.

Maent ar gael yn awr i bob fferylllydd a meddyg, gan gynyddu faint o gefnogaeth iechyd a roddir yn Gymraeg yn y GIG yng Nghymru. Mae'r labeli â rhybudd a chyngor ar gael yn Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain, sef y testun

cyfeirio fferyllol safonol a ddefnyddir gan y rhai sy'n rhoi presgripsiwn, nyrsys a fferyllwyr yn y GIG.

Mae'r gwaith hwn wedi dangos cydweithio rhagorol rhwng y byd academaidd a'r gwasanaeth iechyd, ac enillodd y project y wobwr am wasanaethau i ofal iechyd dwyieithog yn y seithfed gwobrau cyflawniad a gynhaliwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## CYFRWNG CYMRAEG

### DATHLU LLWYDDIANT AR DDYDD GŴYL DEWI

Dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi eleni trwy nodi llwyddiant tri thîm a sgoriodd y marciau uchaf posibl mewn arolwg annibynnol o wasanaethau yn yr iaith Gymraeg.

Sgoriodd tîm y switsfwrdd canolog a'r tîm yn nerbynfa Pontio 100% mewn arolwg gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg o wasanaethau dros y ffôn ac yn y dderbynfa. Fel rhan o ymarfer 'cwsmer cudd', cysylltodd swyddfeydd y Comisiynydd â'r timau hyn dair gwaith. Cawsant wasanaeth cynhwysfawr a chwrtais yn yr iaith Gymraeg bob tro. Roedd Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn arolwg cenedlaethol a dim ond nifer cymharol fach o leoedd gwaith a sgoriodd 100%.

Gwnaed arolwg bwrdd gwaith hefyd o dudalennau gwe'r brifysgol a'r gwasanaethau ar-lein. Dangosodd ganlyniadau'r arolwg bod 97% o'r tudalennau gwe a 100% o'r gwasanaethau ar-lein a adolygwyd yn cynnig dewis yn y Gymraeg a'u bod o'r un safon â'r ddarpariaeth Saesneg. Unwaith eto, mae'r canrannau hyn yn llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Meddai'r Athro Jerry Hunter, Dirprwy Is-ganghellor (Cyfrwng Cymraeg ac Ymwneud â'r Gymuned): "Mae'r canlyniadau hyn yn dangos ymrwymiad Prifysgol Bangor i gynnig gwasanaethau Cymraeg rhagorol i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd. Rydym yn ymfalchïo yn sgiliau iaith Gymraeg ein staff. Flwyddyn ers

lansio ein cynllun strategol i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, rydym yn parhau i sicrhau bod staff yn cael cyfle i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg. Mae canlyniadau arolwg Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn dangos ein llwyddiant yn creu gweithle sy'n wirioneddol ddwyieithog."

Mae Prifysgol Bangor, yn gyson â diwylliant ein rhanbarth, yn dysgu'r ystod a maint mwyaf o addysg uwch cyfrwng Cymraeg: caiff 42% cyfwerth amser llawn ei ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg gan Brifysgol Bangor. Yn ogystal â hyn, mae 70% o holl staff Bangor â galluoedd yn y Gymraeg.



## BYDDAR – A BALCH!

Pan oedd Melen Hâf Lloyd yn blentyn cafodd hi salwch, ac o ganlyniad colodd ei chlyw. Yna, yn ei harddegau, cafodd llawdriniaeth arloesol i adfer rhywfaint ar ei chlyw, trwy dderbyn mewnbliad cochlea. Astudiodd Melen gradd israddedig mewn Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol ym mhrifysgol Bangor, a hynny trwy gyfrwng y Gymraeg, ei hiaith gyntaf.

Pan ddaeth yn amser ysgrifennu traethawd hir, roedd Melen yn awyddus i ymchwilio'r pwnc o fyddardod, gan fod hyn yn agos at ei chalon. Drwy gyd-ddigwyddiad, roedd darlithydd newydd yn Ysgol y Gwyddorau Cymdeithas erbyn hyn, sef Dr Sara Louise Wheeler, darlithydd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae Sara, sydd yn wreiddiol o Wrecsam, hefo nam clyw ei hun, o ganlyniad i gyflwr genetig yn ei theulu: Syndrom Waardenburg math 1, ac mae'n defnyddio teclynnau clyw.

Dan oruchwyliaeth Sara, ysgrifennodd Melen traethawd hir cyntaf yr ysgol i ddefnyddio'r fethodoleg 'hunanethnograffaid', pan fo unigolyn yn cynnal ymchwil i'w ddiwylliant ei hun. Mae Melen yn awr yn astudio gradd meistr ar yr un pwnc, ac yn mynd ati i wneud cyfweiliadau gyda phobl eraill hefyd. Mae Melen wrthi'n paratoi erthygl academiaidd, trwy gyfrwng y Gymraeg, yn seiliedig ar ei thraethawd hir israddedig, gan obeithio ei chyhoeddi mewn cyfnodolyn ysgolhaig.

Cyn dechrau ar ei chwrs meistr, bu Melen yn gweithio gyda Sara am dri mis, dan arweinyddiaeth profiadol Dr Myfanwy Davies, i baratoi cais grant sylweddol i gynnal ymchwil pellach ar hunaniaeth Fyddar Cymraeg, a materion o groestoriadaeth. Os yw'r cais grant yn llwyddiannus bydd Melen yn astudio doethuriaeth fel rhan o'r ymchwil.

Melen Haf Lloyd (chwith) gyda Dr Sara Louise Wheeler.



Tim Gwe Prifysgol Bangor gyda'r Is-ganghellor, John G Hughes, a'r Athro Jerry Hunter, Dirprwy Is-ganghellor.



Plant lleol yn mwynhau'r perfformiadau ysbennedd gan gwmni syrcais Circolombia.

## PONTIO'N RHOI'R GYMUNED YN EI CHALON

Gyda thros 111,000 o bobl wedi prynu tocynnau ar gyfer digwyddiadau ym Mhontio yn ystod y 18 mis ers ei agor ym mis Rhagfyr 2015, o gigs i ddrama, sioeau syrcais i sinema, mae Pontio wedi dod yn le i fyfyrwyr a phobl leol fwynhau amser hamdden.

Mae cyfranogiad cymunedol hefyd yn rhan bwysig o weledigaeth y ganolfan ac adlewyrchwyd hyn mewn nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Bu rhaglen cyfranogiad ieuencid y ganolfan, BLAS, yn cynnal gweithdai wythnosol ar gyfer pobl ifanc rhwng 6 a 18 oed, gan arwain at berfformiad ar lwyfan Theatr Bryn Terfel. Cydlynodd BLAS project rhyng-ghenedlaeth gyda thrigolion cartref gofal Plas Hedd a myfyrwyr Ysgol Friars. Trefnodd BLAS gyfle cofiadwy hefyd i blant ymuno â chast *Snow White* gan Ballet Lorent ym mis Tachwedd.

Cydweithiodd Pontio gydag Opera Cenedlaethol Cymru ar ddigwyddiad cyfranogol 'Dewch i ganu' yn y cyntedd, lle cymerodd côr y Brifysgol, canwyr lleol a'r cyhoedd ran. Dychwelodd Opera Cenedlaethol Cymru hefyd yn yr haf, gyda dros 200 o blant ysgol lleol yn dysgu mwy am y broses o roi opera at ei gilydd a chanu gyda'r gerddorfa.

Roedd Gwledd Syrcais Feast 2017 Pontio, a gefnogir gan arian loteri trwy Gyngor Celfyddydau Cymru, yn cynnwys y gymuned gyfan yn y dathliadau, fel aelodau'r gynulleidfa ac fel cyfranogwyr. Cymerodd plant o bum ysgol leol ran mewn gorymdaith drwy'r ddinas, bu Storiell yn cynnal arddangosfa wedi ysbrydoli gan syrcais, a chynhaliwyd pob math o ddisbarthiadau meistr, gweithdai a digwyddiadau am ddim cyn y chwe pherfformiad *Acelere* gan gwmni syrcais Circolombia o Golombia.

# CYMUNED

## CATRIN YN DISGLEIRIO AR LWYFAN Y BYD

Ers sawl blwyddyn bellach, mae'r Brifysgol wedi dyfarnu bwrsariaethau i athletwyr rhagorol lleol er mwyn eu galluogi i ddefnyddio'r cyfleusterau yng nghanolfan hamdden y Brifysgol, Canolfan Brailsford, fel rhan o'u rhaglenni hyfforddi.

Mae deilydd y wobr eleni, Catrin Jones, yn codi pwysau ac wedi profi blwyddyn ryfeddol wrth gystadlu, gan arwain at ennill medal arian i Gymru ym Mhencampwriaethau Codi Pwysau y Gymanwlad yn Awstralia.


Dros y 12 mis diwethaf, mae Catrin, 18 oed ac o Fangor, wedi cael canlyniadau gwirioneddol drawiadol, gan gynnwys cael ei gosod yn ail yn nosbarth y 48kg yn y *World Youth Championships*, torri'r record Brydeinig yn yr un dosbarth a gosod record yng Nghymru yn nosbarth y 53kg. Hi yw deilydd teitl yr Young British Weightlifter of the Year ar gyfer 2017, teitl sy'n cael ei ddyfarnu i godwr pwysau o safon Olympaidd am gyflawni perfformiadau a chyrhaeddiadau rhagorol.

Meddai Catrin: "Dwi'n hynod ddiolchgar i Brifysgol Bangor am ddyfarnu'r fwrsariaeth i mi. Mae teithio i gystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol yn broses gostus ond mae'r fwrsariaeth chwaraeon o gymorth mawr wrth roi mynediad i mi i gyfleusterau ymarfer archerchog yn ystod y flwyddyn."

Bellach yn fyfyrwraig yn Ysgol Seicoleg Prifysgol Bangor, mae Catrin yn cyfuno'i hastudiaethau ag ymarfer ar gyfer Gemau'r Gymanwlad 2018 yn Awstralia, lle bydd yn cynrychioli Cymru.

Meddai Richard Bennett, Cyfarwyddwr Chwaraeon y Brifysgol:

"Mae Prifysgol Bangor yn falch o allu rhoi cymorth i athletwyr lleol a rhoi mynediad i gyfleusterau ymarfer o safon uchel iddynt a gwireddu eu nodau, a hynny heb orfod teithio'n bell. Testun llawenydd pellach i ni yma yn y Brifysgol yw gweld deilydd bwrsariaeth yn penderfynu parhau â'r bartneriaeth drwy ddod yma i astudio ar gyfer gradd."



Catrin Jones ym Mhencampwriaethau Codi Pwysau Prydain 2017 yn Coventry.



## MYFYRWYR NYRSIO HAEL YN RHANNU HWYL Y NADOLIG

Daeth myfyrwyr nyrsio o'r Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd â hwyl y Nadolig i gleifion yn Ysbyty Maelor Wrecsam y Nadolig diwethaf.

Roedd myfyrwyr Nyrsio Oedolion yn eu hail flwyddyn, Ceri Davies, Kate Topple a Fern Williams, ynghyd â'u darlithydd Angela Williams, wedi llenwi bocsys esgidiau gyda danteithion y Nadolig i gleifion ar wardiau ENT, Bedwen, ac Onnen.

Fe'u cyflwynwyd i gleifion yn Ysbyty Maelor Wrecsam gan grŵp o fyfyrwyr nyrsio ar ôl i Ceri Davies, un o'r myfyrwyr deimlo dros gleifion nad oedd ganddynt deulu i ymweld â hwy ar y ward dros y Nadolig.

Meddai Ceri: "Roeddwn ar leoliad yn Ysbyty Maelor y Nadolig diwethaf, a gwelais gleifion nad oedd ganddyn nhw unrhyw deulu ac yn teimlo'n ddi-gwmni. Roedd yn ofnadwy gweld pobl nad oedden nhw hyd yn oed yn cael cerdyn Nadolig - felly mi aethom ati i roi cardiau

i bawb ar y ward. Ddaru ni benderfynu mynd gam ymhellach eleni a gwneud basgedi Nadolig bach, gydag anrhegion syml er mwyn iddyn nhw wybod ein bod yn meddwl amdany'n nhw.

Casglwyd rhoddion gan fyfyrwyr yn yr Ysgol, ynghyd â rhoddion pellach a roddwyd gan reolwyr y siop Aldi newydd yn Wrecsam.

Meddai Gill Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: "Mae'r ymdrech y mae'r myfyrwyr wedi ei wneud i godi calonnau ein cleifion y Nadolig hwn yn hollol wych, ac rwy'n eu cymeradwyo am y gofal a'r tosturi eithriadol maent wedi ei ddangos.

"Mynd yr ail filltir fel hyn yw hanfod nyrsio. Rwy'n siŵr os byddant yn parhau i ofalu am gleifion fel hyn, bydd ganddynt yrfa hir a llwyddiannus fel nyrsys."

Myfyrwyr nyrsio yn Ysbyty Maelor Wrecsam yn danfon anrhegion Nadolig i gleifion ar wardiau adsefydlu tymor hir, Bedwen ac Onnen.